Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

nus charity
national union of students

# Systemau cynrychiolaeth dysgwyr mewn colegau: yr hanfodion

**Pwrpas** – mae'r papur briffio hwn yn ganllaw sylfaenol ar gyfer creu a llwyddiant systemau cynrychiolwyr dysgwyr.

**Cynulleidfa** – unrhyw staff mewn colegau sy'n ymwneud yn weithredol â dylunio a chyflwyno systemau cynrychiolwyr dysgwyr o ddydd i ddydd

---

## Croeso!

Mae'r canllaw hwn yn gyflwyniad i bopeth sy'n ymwneud â *chynrychiolwyr dysgwyr*. P'un a ydych chi wedi bod yn gweithio gyda chynrychiolwyr ers tro neu newydd ddechrau, mae'r canllaw hwn yma i'ch helpu i adeiladu a chynnal system cynrychiolwyr dysgwyr fywiog - un sy'n dod â manteision go iawn i fywyd y coleg, yn ogystal â helpu dysgwyr i feithrin gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau defnyddiol.

**Beth yw'r system cynrychiolwyr dysgwyr orau yng Nghymru?**

Cwestiwn i'ch twyllo yw hwn (ymddiheuriadau!) - nid oes yna'r fath beth â ffordd "orau" o gynnal system cynrychiolwyr dysgwyr. Mae colegau ledled Cymru'n gwneud hyn mewn ffyrdd gwahanol iawn, gan ddibynnu ar eu blaenoriaethau, y mathau o ddysgwyr sydd ganddynt, a'r adnoddau sydd ar gael (ymysg ffactorau eraill).

Golyga hyn y bydd system pob coleg yn edrych ychydig yn wahanol, ac ni fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un coleg o reidrwydd yn gweithio mewn un arall.  Ond yr hyn sy'n bwysig yw, beth bynnag yw'r system sydd gan goleg, ei bod yn gweithio iddyn nhw a'u dysgwyr.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio gyda hynny mewn golwg. Nid yw'n dweud wrthych yn union beth i'w wneud; yn hytrach, mae'n rhannu syniadau, egwyddorion ac arferion da. Yna gallwch chi benderfynu beth sy'n gweithio orau i chi a'ch coleg.

**Beth mae cynrychiolydd dysgwyr yn ei wneud?**

Mae cynrychiolydd dysgwyr yn rhywun sy'n siarad ar ran dysgwyr neu grwpiau o ddysgwyr – maen nhw'n rhannu barn, safbwyntiau, syniadau a chwestiynau. Maent yn gweithredu fel pont rhwng y coleg a chorff y dysgwyr. Os yw'r coleg eisiau gwybod beth mae dysgwyr yn ei feddwl, mae cynrychiolwyr dysgwyr yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth.

Fel arfer mae gan gynrychiolwyr dysgwyr gylch gwaith penodol, fel cynrychioli dysgwyr ar eu cwrs neu gampws.

Caiff hyn i gyd ei drefnu a'i gydlynu trwy system cynrychiolwyr dysgwyr sy'n gweithredu ar draws y coleg cyfan.

**Pam mae bod â system cynrychiolwyr dysgwyr yn bwysig?**
Gall system weithredol o gynrychiolwyr dysgwyr sy’n cael ei chynnal yn dda fod yn ffordd wych o helpu’r coleg i ddeall beth mae dysgwyr yn ei feddwl, beth maen nhw’n poeni amdano, a beth sydd ei angen arnyn nhw. Gall yr adborth hwn wella sawl agwedd ar fywyd y coleg, o amserlennu dosbarthiadau, i sicrhau bod mannau ar y campws yn ddiogel ac yn hygyrch, i rannu dealltwriaeth a chydlyniad diwylliannol. Yn gyffredinol, gall canoli llais y dysgwr helpu i adeiladu cymuned ddysgu gefnogol ac ymatebol.

**Sut mae cynrychiolwyr dysgwyr yn rhoi adborth?**
Gall cynrychiolwyr roi adborth mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys:

1. **Helpu gyda phenderfyniadau**: Gall cynrychiolwyr rannu barn dysgwyr pan fydd y coleg yn gwneud penderfyniadau, fel newid oriau’r llyfrgell. Gall y coleg ofyn yn rhagweithiol i'r cynrychiolwyr am fewnbwn a defnyddio'r hyn maen nhw’n ei ddweud i helpu â llywio eu penderfyniadau.
2. **Codi Materion:** Gall cynrychiolwyr roi gwybod i'r coleg am faterion y maent yn teimlo sy'n bwysig i fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu efallai eu bod yn codi materion pwysig nad oedd y coleg yn ymwybodol ohonynt, neu eu bod yn codi problemau bach cyn iddynt ddod yn rhai mawr. Er enghraifft, os yw'r goleuadau gwael ym maes parcio’r dysgwyr yn ei gwneud o bobl deimlo nad yw'n ddiogel wedi iddi nosi, gall cynrychiolydd ddweud wrth aelod o staff am hyn, fel y gall y coleg ddatrys y broblem.
3. **Rhannu newyddion pwysig**: Gall cynrychiolwyr helpu i ledaenu gwybodaeth bwysig i ddysgwyr. Er enghraifft, os bydd dŵr wedi gorlifo mewn darlithfa fawr a bod dosbarthiadau'n cael eu symud i'r gampfa, gall cynrychiolwyr rannu'r diweddariad hwn gyda dysgwyr eraill. Fel hyn, mae dysgwyr yn clywed y newyddion mewn gwahanol ffyrdd, nid dim ond trwy e-bost neu neges destun. Ac felly, yn fwy tebygol o gael y neges.

**Egwyddorion craidd system cynrychiolwyr dysgwyr:**


Er nad oes un glasbrint penodol ar gyfer system cynrychiolwyr dysgwyr, mae rhai egwyddorion craidd y byddai unrhyw system cynrychiolwyr cwrs iach a gweithredol yn seiliedig arnynt. Rydym wedi cymryd yr egwyddorion hyn o Fframwaith Llais y Dysgwr. Y rhain yw:

1. **Partneriaeth** – Mae partneriaeth ddeinamig a pharchus rhwng dysgwyr a’r coleg yn creu cymuned gadarnhaol yn y coleg. Mae gweithio gyda'ch gilydd yn meithrin gweledigaeth a rennir ar gyfer addysg o safon, sydd yn y pen draw yn gwella'r profiad coleg cyfan.
2. **Dysgwyr wedi’u grymuso -** Mae hyn yn golygu helpu dysgwyr i ddod o hyd i'w llais a'i ddefnyddio mewn ffordd ystyrlon. Pan fydd dysgwyr yn fedrus, yn wybodus ac yn hyderus, maent yn dod â rhywbeth arbennig a gwerthfawr i'w coleg. Pan fydd colegau'n cefnogi dysgwyr i lywio eu haddysg, mae pob dysgwr yn cael cyfle i wneud gwahaniaeth.
3. **Cynhwysol** – Mae arferion cynhwysol yn dathlu amrywioldeb ac yn chwyddo pob llais, yn enwedig grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae colegau sy'n gwrando ac yn cefnogi safbwyntiau amrywiol yn cyfoethogi profiadau pob dysgwr.

4. **Gwreiddio a gwerthfawrogi** – Mae ymgysylltiad dysgwyr ar ei orau pan gaiff ei integreiddio'n ystyrlon i bob penderfyniad ar draws bywyd coleg – o gynrychiolwyr cwrs i swyddogion etholedig, i fyfyrwyr lywodraethwyr, o gyfarfodydd ansawdd cyrsiau i fentrau Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynwysoldeb, i'r bwrdd llywodraethu.
5. **Sefydledig, strategol, a chynaliadwy** – mae'r system gynrychiolaeth yn rhan o ecosystem ehangach llais y dysgwr, sy'n derbyn y gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i greu effaith hirdymor ystyrlon.

**Sefydlu a chynnal system cynrychiolwyr dysgwyr:**

Mae sawl cam yng nghylch bywyd y system cynrychiolwyr dysgwyr. Bydd yr adran hon yn trafod pob un o'r camau hyn yn eu tro.




## Cam 1: dylunio'r system gynrychiolaeth gywir

Nawr yw'r amser i feddwl am yr hyn sydd ei angen ar y coleg a'r dysgwyr o system cynrychiolwyr. Pan fyddwch chi'n creu'r system hon am y tro cyntaf, cofiwch y bydd yn newid ac yn gwella dros amser. Peidiwch â cheisio gwneud gormod yn y flwyddyn gyntaf; canolbwyntiwch ar brofi syniadau a dysgu beth sy'n gweithio heb gael eich llethu.

Ystyriwch y canlynol:

- **Grwpio dysgwyr**: Sut gallwch chi grwpio dysgwyr fel bod ganddyn nhw gynrychiolaeth dda? Ar y dechrau, efallai y byddwch chi'n canolbwyntio ar gynrychiolwyr cwrs yn unig. Wrth i'r system ddatblygu, gallwch ystyried

ychwanegu cynrychiolwyr staff y gyfadran, cynrychiolwyr campws, dysgwyr rhan-amser, dysgwyr gyda'r nos, a dysgwyr ag anableddau a.y.b. Ond ar y dechrau, cadwch bethau'n syml.

- **Y materion pennaf:** Pa bynciau mae dysgwyr eisiau eu trafod? Beth sy'n bwysig iddyn nhw? Mae'n bosib y bydd newidiadau mawr yn digwydd yn y coleg, fel prosiectau adeiladu newydd. Mae yna hefyd faterion bob-dydd, fel arlwyo a thrafnidiaeth, yn effeithio ar fywyd y dysgwr. Ceisiwch feithrin dealltwriaeth o'r hyn y mae dysgwyr yn poeni amdano a theilwra eich system cynrychiolwyr tuag at y materion hynny.
- **Fforymau ar gyfer cynrychiolwyr sy'n bodoli eisoes**: Pa fforymau all roi llwyfan defnyddiol i'r cynrychiolwyr siarad?
    - A allant fynychu cyfarfodydd cyfadran? Efallai y bydd angen rhywfaint o hyfforddiant a chymorth arnynt i'w helpu i lywio'r rhain.
    - Oes grŵp yn gweithio ar dasgau penodol y gall cynrychiolydd ymuno ag ef? e.e. adnewyddu'r cyfleusterau chwaraeon.
    - A allai Pennaeth yr Adran gyfarfod â chynrychiolwyr y gyfadran am 30 munud bob mis i drafod materion a rhoi cyfle i gynrychiolwyr godi eu pryderon?

**Ymgysylltu â staff y coleg**

Mae angen i staff ddeall pa mor bwysig yw llais y dysgwr a beth mae'r system cynrychiolwyr yn ei wneud. Bydd rhai'n gefnogol o'r dechrau, tra bydd eraill yn ansicr neu'n bryderus. Dylai pawb fod yn gwybod beth yw pwrpas y system cynrychiolwyr a sut y gallant helpu i'w gwneud yn llwyddiant. Dylai staff sy'n eistedd ar fyrddau gyda chynrychiolwyr hefyd wybod pam mae'r cynrychiolydd yno, beth yw eu rôl, a sut y gallant helpu i gefnogi'r cynrychiolydd.

Nid oes rhaid i hyfforddiant ar gyfer staff fod yn gymhleth nac ychwanegu at eu llwyth gwaith. Yn syml, dylai eu helpu i ddeall sut i weithio gyda chynrychiolwyr er mwyn cynorthwyo dysgwyr a gwella'r coleg.

Er enghraifft, gall tiwtoriaid helpu i hyrwyddo'r etholiad ar gyfer cynrychiolwyr, a gall aelodau pwyllgorau helpu trwy fod yn groesawgar i gynrychiolwyr newydd ar y pwyllgor a thrwy ddangos dealltwriaeth wrth i gynrychiolwyr ymgyfarwyddo â'u rolau.

## Cam 2: Dod o hyd i'ch Cynrychiolwyr

**Pwy all fod yn gynrychiolydd dysgwyr**

Gall unrhyw ddysgwr sydd wedi cofrestru gyda'r coleg fod yn gynrychiolydd dysgwyr. Byddai cynrychiolydd sy'n gyfrifol am ddysgwyr rhan-amser yn ddelfrydol yn ddysgwr rhan-amser ei hun, a byddai cynrychiolydd ar ran y gyfadran wyddoniaeth yn ddelfrydol yn dod o'r gyfadran wyddoniaeth.

**Recriwtio cynrychiolwyr**

Yn gyntaf, mae'n bwysig creu disgrifiad clir o rôl y cynrychiolydd. Mae angen i ddysgwyr wybod beth i'w ddisgwyl. Os oes angen iddynt fynychu cyfarfodydd, rhannwch y dyddiadau â nhw os ydynt ar gael. Hefyd, dywedwch wrthynt y byddant yn derbyn

hyfforddiant (gweler yr adran ar sefydlu a hyfforddiant). Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhestru manteision bod yn gynrychiolydd, fel datblygu sgiliau, ennill profiad proffesiynol, a hyfforddiant. Ceisiwch gynnwys cymaint o wybodaeth â phosib.

Lledaenwch y gair cymaint â phosib. Un rheswm mawr nad yw dysgwyr yn cymryd rhan yn y system yw nad ydyn nhw'n gwybod amdani. Os oes gennych chi gynrychiolwyr eisoes, gadewch iddyn nhw helpu. Defnyddiwch bosteri, gwnewch gyhoeddiad mewn darlithoedd, rhannwch ar gyfryngau cymdeithasol, gofynnwch i staff siarad â'u dysgwyr, gofynnwch i gynrychiolwyr presennol gyhoeddi i'r dosbarth neu uwchlwythwch negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Mae'n bwysig defnyddio nifer o wahanol ddulliau i gyrraedd cymaint o ddysgwyr â phosib.

Mae cael dysgwyr i ethol eu cynrychiolwyr yn ddefnyddiol, gan fod hyn yn rhoi mwy o hygrededd i'r rôl, a mwy o gyfreithlondeb i'r unigolyn, ac mae'r etholiad ei hun yn helpu i godi proffil y system cynrychiolwyr.

Ar gyfer ethol cynrychiolydd cwrs, gallech wahodd dysgwyr i fynegi diddordeb yn y rôl. Gall hwn fod yn ddatganiad byr, efallai 50-100 gair ynglŷn â pham y byddent yn gynrychiolydd da. Gosodwch derfyn amser ar gyfer cyflwyno'r datganiad, efallai wythnos neu bythefnos. Yna rhannwch y datganiadau hyn gyda'r dosbarth a chynhaliwch bleidlais ar ddiwedd darlith trwy godi dwylo. Bydd rhai colegau'n defnyddio system electronig.  Y nodwedd bwysicaf yw bod y broses yn dryloyw.

1. Gofynnwch am ddatganiadau gan ddysgwyr sydd â diddordeb yn y rôl
2. Rhannwch y datganiadau hyn gyda'r dysgwyr sy'n pleidleisio
3. Cyfrwch y pleidleisiau!

Weithiau, bydd cynrychiolwyr yn cael eu dewis pan fydd darlithydd yn gofyn a oes gan unrhyw un ddiddordeb, a chaiff yr unigolyn ei ethol ar sail codi dwylo yn y dosbarth. Ond gall hyn achosi problemau o ran cynwysoldeb, gan fod ymchwil yn dangos mai'r bobl fwy hyderus, yn aml dynion neu'r rhai yn y grŵp mwyafrifol, fydd yn codi eu dwylo fel arfer. Gall hyn allgau dysgwyr mwy swil, menywod a phobl o gefndiroedd lleiafrifol. Mae'n well cynnal proses fwy trefnus sy'n helpu i gynnwys pawb.

***Coleg Gŵyr Abertawe:*** *Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn defnyddio'r tiwtorialau Gwerthoedd Prydeinig gorfodol fel ffordd o ethol eu cynrychiolwyr (yn ogystal â swyddog sabothol a myfyrwyr lywodraethwyr).  Caiff y sesiwn ar ddemocratiaeth/pleidleisio ei haddysgu'r un wythnos ar draws y coleg, ac fel rhan o hyn, gwahoddir dysgwyr i gymryd rhan yn etholiadau'r coleg.*

*Nid yn unig y maent yn dysgu am bwnc pwysig, ond maent hefyd yn cael ymwneud ag etholiad democrataidd go iawn – gan ddod â'r addysgu'n fyw a chyfrannu at nifer iach o bleidleiswyr yn cymryd rhan yn yr etholiad.*

***Grŵp Colegau NPTC:*** *fel ffordd o hyrwyddo ethos y coleg, yn ogystal â'r system cynrychiolwyr dysgwyr yn benodol, yn ystod y cyfnod sefydlu dywedir wrth ddysgwyr y dylent ystyried eu hunain fel partneriaid o fewn cymuned y coleg, a bod modd iddynt*

*gymryd rhan yn hyn trwy weithgarwch llais y dysgwr, gan gynnwys eu system cynrychiolwyr, undeb y myfyrwyr, y cynllun llysgenhadon, a dod yn un o'u dau fyfyriwr lywodraethwr.*

**Monitro amrywioldeb**

Mae cynwysoldeb yn rhan allweddol o system cynrychiolwyr dda. Er mwyn sicrhau eich bod yn gwneud yn dda yn y maes hwn, mae'n bwysig cadw golwg ar amrywioldeb eich cynrychiolwyr dysgwyr. Os na fyddwch chi'n ei fesur, efallai na fyddwch chi'n sylwi pe bai amrywioldeb yn lleihau neu'n mynd yn anghytbwys.

Y ffordd hawsaf o olrhain hyn yw gofyn i gynrychiolwyr etholedig lenwi arolwg amrywioldeb dewisol, dienw, yn debyg i'r hyn y mae ymgeiswyr am swyddi yn ei wneud pan fyddant yn gwneud cais am swydd. Mae’n debygol y gall eich adran Adnoddau Dynol eich helpu gyda geiriad yr arolwg a sut i ddiogelu’r data.

Unwaith y bydd y wybodaeth gennych, dylech ei chymharu â'r boblogaeth dysgwyr ehangach. Bydd hyn yn eich helpu i weld a oes tueddiadau, e.e. nifer is o fenywod yn cynnig eu hunain.  Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw broblemau, meddyliwch am sut allwch chi wella’r sefyllfa hon y flwyddyn nesaf.

Os ydych chi eisiau bod yn wirioneddol dda yn hyn o beth, gallwch chi hefyd fonitro amrywioldeb y dysgwyr sy'n gwneud cais i fod yn gynrychiolwyr.

## Cam 3: Sefydlu a hyfforddiant

Nawr eich bod wedi gosod eich system cynrychiolwyr dysgwyr a bod eich grŵp cyntaf o gynrychiolwyr wedi'u dethol, mae'n bryd eu sefydlu. Yn ddelfrydol, gallwch ddod o hyd i ychydig o oriau pan fydd yr holl gynrychiolwyr newydd yn gallu cyfarfod ar gyfer eu sesiwn gyntaf. Yn ystod y cyfarfod hwn, gallwch egluro'r system cynrychiolwyr dysgwyr, yr hyn a ddisgwylir ganddynt, pa gymorth sydd ar gael iddyn nhw, a sut bydd cyfathrebu'n gweithio. Bydd hefyd yn dda iddynt gwrdd â'i gilydd, a'r staff allweddol sy'n ymwneud â'r system cynrychiolwyr.

Cofiwch, dylai bod yn gynrychiolydd fod yn ystyrlon. Mae'n hollbwysig eu bod yn barod i lwyddo yn eu rôl. Efallai y bydd angen cymorth ar gynrychiolwyr i ddeall sut mae’r coleg yn gweithio, sut mae pwyllgorau’n gweithio, a sicrwydd mai eu rôl yw siarad ar ran eu carfan o fyfyrwyr. Mae hyfforddiant yn allweddol.

Bydd y math o hyfforddiant sydd ei angen arnynt yn dibynnu ar sut y caiff y system cynrychiolwyr ei dylunio. Cofiwch y gall yr hyfforddiant ei hun fod yn gymhelliant allweddol i bobl gynnig eu hunain ar gyfer y rôl.

**Gall hyfforddiant gynnwys:**

- **Ymddygiad mewn cyfarfod pwyllgor**: Mae cyfarfodydd ffurfiol yn wahanol i sefyllfaoedd eraill. Mae yna agendâu, papurau, rheolau ynghylch ymddygiad, digonedd o acronymau, rôl benodol y cadeirydd, ffyrdd o godi pwyntiau, a

phwysigrwydd gwirio cofnodion. Peidiwch â thybio bod y dysgwyr yn gwybod hyn; mae'n debygol y bydd angen arweiniad arnyn nhw i gymryd rhan yn effeithiol.

- **Sut i ymgysylltu â dysgwyr eraill**: Er eu bod nhw'n ddysgwyr ac yn cynrychioli eraill, peidiwch â chymryd yn ganiatаol eu bod nhw'n gwybod sut i wneud hyn yn dda. Rhowch wybod iddyn nhw am Egwyddorion Craidd y system gynrychiolaeth, ynglŷn â sut y dylen nhw geisio barn gan ddysgwyr tawelach, y rhai y gallent nghytuno â nhw, a symud ymhell y tu hwnt i'w cylch cymdeithasol.
- **Cyfathrebu Effeithiol**: Mae hyn yn cynnwys sut i lunio dadl, cynnal dadl gadarn/barchus, anghytuno mewn ffordd ddymunol, a rhoi a derbyn adborth adeiladol.
- **Cyflwyniad i'r coleg**: Dylent ddysgu sut mae'r coleg yn cael ei redeg, sut y gwneir penderfyniadau, a'r materion o bwys y mae'n eu hwynebu. Bydd deall y darlun ehangach yn eu helpu i ddadansoddi'r pynciau allweddol a chysylltu â dysgwyr eraill yn eu cylch.

Mae angen iddynt hefyd wybod am yr adnoddau sydd ar gael i'w helpu yn eu rôl. Er enghraifft, a fydd canlyniadau arolygon dysgwyr ar gael iddynt? A fydd ystafelloedd cyfarfod ar gael os ydynt am gynnal grwpiau trafod bach ar bynciau penodol?

***Coleg Cambria:*** *mae pob rôl o fewn eu hecosystem llais y dysgwr yn derbyn hyfforddiant penodol, e.e. llywodraethwyr gyda'r clerc i'r bwrdd, swyddogion sabothol gyda staff llais y dysgwr, a chynrychiolwyr myfyrwyr trwy ddwy Gynhadledd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (a gynhelir ar y ddau gampws mwyaf). Mae'r cynadleddau hyn yn cynnig llu o wybodaeth, cyngor ac arweiniad ar sut i fod yn gynrychiolydd myfyrwyr gwych; er enghraifft, mae dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau a'r meddylfryd i gynrychioli barn pob myfyriwr, nid dim ond eu hunain neu eu cylch ffrindiau. Fel ffordd o annog eu hymgysylltiad, darperir amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant eraill i'r dysgwyr hefyd, megis sesiynau dadlau, y Gymraeg, a chymorth cyntaf.*

***Grŵp Colegau NPTC:*** *mae'r 250+ o gynrychiolwyr yn derbyn hyfforddiant ar wybodaeth allweddol, fel gwrthdaro buddiannau a sut mae'r coleg yn gweithio, yn ogystal â sgiliau, fel sut mae pwyllgorau'n gweithredu. Trwy gydol y tymor cyntaf, rhoddir dewis o ddeg dyddiad iddynt ar gyfer yr hyfforddiant hwn, er mwyn sicrhau y gallant ei ffitio ymhlith eu hastudiaethau a'u bywydau ehangach.*

## Cam 4: Gwneud y gwaith

Ar y pwynt hwn, y gobaith yw y bydd y cynrychiolwyr wedi cael eu hyfforddi ac yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau. Dylai'r staff academaidd hefyd fod yn ymwybodol o'r cynrychiolwyr, a dylent fynd ati i ddechrau cynnal gweithgareddau. Mae'r hyn sy'n digwydd nesaf yn dibynnu ar y system a grëwyd gennych. Gallai'r cynrychiolwyr ddechrau mynychu cyfarfodydd pwyllgor, ymuno â thasgluoedd, a chyfarfod â staff academaidd yn rheolaidd.

**Sut gall cynrychiolwyr gysylltu â dysgwyr eraill**

Mae llawer o ffyrdd y gall cynrychiolwyr ymgysylltu â'u cyd-ddysgwyr. Bydd hyn yn

dibynnu ar sut mae'r system cynrychiolwyr dysgwyr wedi'i sefydlu a beth sydd orau gan y cynrychiolwyr. Dyma rai syniadau i'w hawgrymu yn ystod eu hyfforddiant:

- Cyfryngau cymdeithasol
- Cyhoeddiadau mewn darlithoedd / dosbarthiadau
- Siarad wyneb-yn-wyneb
- Cynnal digwyddiadau neu sesiynau galw-heibio
- Anfon e-byst
- Creu posteri

***Coleg Cambria:*** *Ddwywaith y flwyddyn bydd pob campws yn cynnal Cyngor Campws. Mae cynrychiolwyr dysgwyr o'r safle'n mynychu'r rhain, yn ogystal ag aelodau o Uwch Dîm Rheoli'r coleg. Yn y fforymau hyn gellir codi a thrafod amryw o faterion. Anogir dysgwyr i godi eu materion eu hunain; hefyd gofynnir iddynt wneud sylwadau ar byncIau a gyflwynir gan y coleg.*

***Grŵp Colegau NPTC:*** *Gwahoddir cynrychiolwyr dysgwyr i gyflwyno mewn cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth os ydynt yn teimlo bod ganddynt faterion perthnasol i'w codi. Er enghraifft, cyflwynodd dysgwyr gynnig i'r UDA ynghylch sut y gallai corff y myfyrwyr gefnogi dioddefwyr y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol mewn ffyrdd na fyddai'n cael eu hystyried yn rhy wleidyddol (y cynnig oedd codi arian ar gyfer y Groes Goch). Roedd staff llais y dysgwr yn bresennol yn y cyfarfod, ond roedd yr eitem ar yr agenda wedi'i harwain gan y dysgwyr, a chafwyd canlyniad llwyddiannus.*

***Coleg Merthyr:*** *Mae gan bob adran gynrychiolwyr cwrs sy'n cynrychioli carfan ehangach o fyfyrwyr; mae'r rhain yn cyfarfod â Phenaethiaid Adran yn rheolaidd i drafod materion allweddol sy'n ymwneud â'u cwrs a'u hamgylchedd dysgu ac i adlewyrchu barn eu cyfoedion. Mae Senedd y dysgwyr yn cyfarfod yn fisol i drafod materion cyfoes. Er ei bod ar agor i bob dysgwr, cynrychiolwyr cwrs a llysgenhadon sy'n ei mynychu'n bennaf. Mae amrywiaeth o staff o bob rhan o'r coleg hefyd yn mynychu i ateb cwestiynau a chymryd rhan mewn trafodaethau. Mae yna Gadeirydd ac Is-gadeirydd, sydd ill dau yn ddysgwyr, ac maen nhw'n arwain datblygiad a thrafodaeth yr agenda.*

***Coleg Gwent****: mae yna gynrychiolwyr dysgwyr ar wahanol bwyllgorau ar draws y coleg. Mae enghreifftiau o bwyllgorau o'r fath yn cynnwys Profiad y Dysgwr; Cwricwlwm ac Ansawdd, a'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynwysoldeb. Mae'r adborth gan y staff dan sylw yn gadarnhaol iawn ac ystyrir bod y dysgwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr.*

***Coleg Caerdydd a'r Fro:*** *daeth dysgwyr at ei gilydd a chyhoeddi i'r coleg eu bod am gynnal digwyddiad a fyddai'n dathlu'r amrywioldeb eang ar draws y coleg. Ar ôl cael y golau gwyrdd, trefnodd y dysgwyr ddiwrnod Diwylliant. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau dysgwyr a grwpiau cymunedol yn cynnal stondinau a oedd yn arddangos bwydydd ac agweddau diwylliannol o bob cwr o'r byd - pob un ohonynt hefyd wedi'u cynrychioli yn y coleg. Roedd yn ffordd wych o greu cymuned a dealltwriaeth ar draws bywyd coleg.*

**Cael y gorau o'r cynrychiolwyr**

Mae'n ymwneud â mwy na dim ond bod â chynrychiolwyr, ond yn hytrach bod â chynrychiolwyr sy'n teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu rôl yn ystyrlon.

Dylai'r staff sy'n gyfrifol am y system cynrychiolwyr gadw llygad ar sut mae popeth yn mynd. Bydd rhai cynrychiolwyr yn fwy gweithgar nag eraill, ac mae'n bosib na fydd rhai'n cymryd rhan o gwbl. Gall rhai fod yn weithredol i ddechrau, yna'n datgysylltu. Mae hyn yn ddigon cyffredin. Yn dibynnu ar y sefyllfa, efallai y bydd angen i staff gamu i mewn i helpu'r rhai sy'n cael trafferth neu ail-sbarduno'r rhai sy'n llai gweithredol.

Cadwch lygad ar farn y staff hefyd. Er enghraifft, efallai y bydd cydweithiwr yn dweud "Dydw i ddim yn gweld y pwynt; fe ddaethon nhw i'r cyfarfod, ond ddwedon nhw ddim byd". Gallai hyn fod wedi digwydd oherwydd bod y pwyllgor o aelodau staff wedi codi ofn ar y cynrychiolydd ac efallai ei fod yn teimlo nad oedd wedi paratoi'n ddigonol. Gall fod yn frawychus, yn enwedig os nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i siarad.

Dyma pam mae hyfforddiant ac ymgysylltu â staff yn allweddol:

- Y gobaith yw y bydd yr hyfforddiant y byddant wedi'i gael yn eu helpu i ddeall eu rôl a'i bod yn iawn i leisio'u barn, a sut mae pwyllgorau'n gweithio.
- Mae gobaith hefyd y bydd ymgysylltu â staff yn annog staff i fynd ati'n rhagweithiol i groesawu a chefnogi'r cynrychiolwyr i gyflawni eu rolau. Mae'n bwysig bod Cadeiryddion y pwyllgorau wedi paratoi ar gyfer hyn.

Yn ddelfrydol byddai yna gefnogaeth barhaus i gynrychiolwyr, pe bai ganddynt gwestiynau neu bryderon. Gallai hyn gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda phob cynrychiolydd i wirio sut maen nhw'n teimlo am eu rôl ac unrhyw anghenion a allai fod ganddyn nhw. Gallai hefyd gynnwys arolygon neu bolisi drws agored gyda'r staff sy'n cynnal y system.

| |
|---|
| Coleg Dewi Sant: *Darperir hyfforddiant i gynrychiolwyr ar ddechrau'r flwyddyn o ran beth yw'r disgwyliadau o'r rôl a sut y gallant ei chyflawni. Bob tymor bydd yr athro'n gadael yr ystafell ddosbarth, a bydd y cynrychiolydd yn arwain sesiwn adborth gyda'u cyfoedion. Yna bydd y cynrychiolydd yn cyfarfod â'r athro, ac yn dibynnu ar y materion a godwyd, bydd camau gweithredu fel arfer yn cael eu cymryd, a bydd hyn yn cael ei gyfathrebu i'r corff dysgu trwy broses "fe ddwedoch chi, fe wnaethom ni". Er bod cynrychiolwyr mewn cysylltiad cyson â'u cyfoedion ynglŷn â materion, mae'r amser strwythuredig hwn, o ran cynrychiolwyr yn siarad â dysgwyr ac yna'n siarad â staff, yn sicrhau bod lle ar gyfer y sgyrsiau hanfodol hyn.* |

**Beth os bydd y cynrychiolwyr yn mynd yn rhy angerddol am faterion?**
Mae'n wych gweld dysgwyr yn angerddol am bynciau, ond weithiau gall yr angerdd hwnnw lethu staff, yn enwedig os yw'n troi'n rhwystredigaeth neu'n ddicter. Dyma gyfle i helpu'r dysgwyr i sianelu eu teimladau i ddatblygu pwyntiau adeiladol, cymryd rhan mewn dadl iach, a meithrin sgiliau cyfaddawdu. Sgiliau defnyddiol iawn iddyn nhw.

Mae'n werth yr ymdrech oherwydd gall eu safbwyntiau unigryw gyfoethogi cymuned y coleg. Yn y diwedd, mae pawb ar eu hennill.

**Cam 5: Cau'r ddolen adborth**

Mae'n ddefnyddiol iawn cau'r ddolen adborth. Mae hyn yn golygu rhoi gwybod i ddysgwyr beth ddigwyddodd oherwydd eu mewnbwn. Cyfeirir at hyn yn aml fel "fe ddwedoch chi, fe wnaethom ni". Weithiau gall awgrymiadau dysgwyr arwain at newidiadau cyflym, ffurfio rhan o gynlluniau hirdymor, neu byddant yn bodoli tu allan i'r hyn y gall y coleg ddylanwadu'n uniongyrchol arno. Serch hynny, mae rhoi gwybod i ddysgwyr yn allweddol i wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu clywed. Er enghraifft:

- "Fe ddwedoch chi eich bod chi eisiau mwy o ddewisiadau yn y caffi. Buom yn gweithio gyda grŵp o fyfyrwyr a'r staff arlwyo i ychwanegu mwy o opsiynau llysieuol, fegan, di-glwten, a rhatach."
- "Rydyn ni'n gwybod bod llawer ohonoch chi eisiau caeau pêl-droed 4G. Rydym wedi cynnwys hyn yn ein cynllun adeiladu ar gyfer 2026-2031."
- "Dywedodd llawer ohonoch fod costau byw yn ei gwneud yn anodd astudio. Rydym wedi ychwanegu adnoddau newydd ar y porth dysgwyr am sut i reoli eich arian, siopa ar gyllideb, cael hwyl heb wario llawer, a ble i ddod o hyd i ysgoloriaethau a grantiau."

Mae'n hanfodol i'r coleg ddangos sut y defnyddiodd y mewnbwn gan ddysgwyr. Mae rhannu'r wybodaeth hon yn fwy na dim ond y peth iawn i'w wneud; mae hefyd yn bwysig ar gyfer adeiladu system cynrychiolwyr gref. Os na fydd dysgwyr, cynrychiolwyr a darpar gynrychiolwyr yn gweld y ddolen adborth ar waith, efallai y byddant yn dechrau meddwl tybed a yw'r system cynrychiolwyr yn effeithiol, sy'n gallu creu difaterwch a dicter. Mae'n hanfodol i'r coleg ddangos sut y defnyddiodd yr adborth gan ddysgwyr.

*Coleg Caerdydd a'r Fro: maen nhw'n cynnal sioeau teithiol ar gyfer ymgysylltu, lle mae'r Pennaeth a staff uwch eraill yn teithio i'r gwahanol gampysau ac yn cwrdd â myfyrwyr. Maen nhw'n trafod y pynciau mawr sy'n ymwneud â bywyd coleg, gan ateb cwestiynau a chlywed beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud. Mae yna ddigonedd o ddadlau iach ac mae dysgwyr a staff fel ei gilydd yn mwynhau'r sesiynau hyn. Yna mae hyn yn arwain at y fenter "fe ddwedoch chi, fe wnaethom ni", lle mae'r coleg yn rhoi adborth i ddysgwyr ar y camau a gymerwyd mewn perthynas â'u hadborth.*

**Cam 6: Monitro effaith a gwerthuso**

Pan fydd cyfnod y cynrychiolwyr dysgwyr yn dod i ben (sy'n aml yn cyd-fynd â'r flwyddyn academaidd), mae yna rai camau pwysig y gallwch eu dilyn.

**Mesur effaith**

Byddwch hefyd eisiau mesur effaith y system cynrychiolwyr ei hun – pa newidiadau a wnaed yn y coleg o ganlyniad i adborth gan gynrychiolwyr?

Mae mesur effaith yn golygu gwirio pa mor llwyddiannus mae'r system gynrychiolaeth

wedi bod. Gallwch edrych ar bethau fel pa sgiliau y mae'r cynrychiolwyr wedi'u dysgu, pa mor ddefnyddiol yw'r sgiliau hynny, ac i ba raddau mae dysgwyr a staff wedi ymwneud â'r system. Gallwch hefyd wirio a wnaeth y cynrychiolwyr ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu cyd-ddysgwyr.

Dyma rai ffyrdd o fesur effaith, yn dibynnu ar eich adnoddau a beth yw eich blaenoriaethau:

- **Olrhain adborth trwy gydol y flwyddyn:** Allwch chi gael cynrychiolwyr i olrhain pa adborth y mae dysgwyr yn ei godi gyda nhw? Allwch chi olrhain yr hyn a ddigwyddodd i'r adborth hwnnw trwy system y coleg? Gallai hyn fod mor syml â thaenlen sy'n cael ei diweddaru gan gynrychiolwyr neu staff.
- **Arolygon ar gyfer cynrychiolwyr**: Gofynnwch iddynt ba sgiliau y maen nhw wedi'u datblygu a pha mor hyderus y maent yn teimlo o ran siarad cyhoeddus a sgiliau pwyllgora. Gallwch wneud hyn ar ddechrau eu cyfnod yn y rôl, ac yna eto ar y diwedd, i weld gwelliannau. Dylech gynnwys lle iddyn nhw rannu sylwadau eraill am eu profiadau. Gallwch ddefnyddio'r dyfyniadau hyn mewn adroddiad cryno.
- **Grwpiau ffocws:** Gallwch gynnal grŵp trafod i blymio'n ddyfnach i ganlyniadau'r arolwg. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer sgyrsiau dwysach a all ddarparu mewnwelediadau gwerthfawr.
- **Siarad â staff:** Siaradwch â staff i ddeall sut mae cynrychiolwyr y dysgwyr wedi effeithio ar eu meysydd. Dylech gynnwys cadeiryddion pwyllgorau pwysig. Efallai bod y cynrychiolwyr wedi codi materion pwysig, wedi cynnig safbwyntiau unigryw, neu wedi helpu i ddatrys problemau. Mae astudiaethau achos yn ffordd wych o ddangos gwerth y system cynrychiolwyr i staff a darpar gynrychiolwyr yn y dyfodol.
- **Data**: cadwch olwg ar nifer y cynrychiolwyr sydd gennych, nifer y mynychwyr mewn digwyddiadau a hyfforddiant, nifer y cwestiynau a godwyd mewn sioeau teithiol a.y.b.

Ar ôl casglu eich gwybodaeth a'ch data, gallwch greu adroddiad effaith byr. Gallwch ychwanegu astudiaethau achos/dyfyniadau gan gynrychiolwyr ac aelodau staff. Soniwch am unrhyw newidiadau rydych chi'n bwriadu eu gwneud ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Unwaith y bydd y system gynrychiolaeth wedi bod ar waith am fwy na blwyddyn, gallwch hefyd gymharu'r data dros amser a allai fod o gymorth wrth gynllunio a'ch dyrannu adnoddau.

***Coleg Cambria**: Mae tîm llais y dysgwr yn awyddus iawn i gasglu data. Maent yn cadw golwg fanwl ar dueddiadau, gan felly ragweld ymgysylltiad blynyddol. Er enghraifft, hanner ffordd trwy’r flwyddyn academaidd 2024/25 roeddent yn gallu rhagweld yn hyderus y byddai ganddynt 4,000 o fyfyrwyr yn ymgysylltu â gweithgareddau llais y dysgwr erbyn mis Gorffennaf. Mae bod ag ystadegau o'r fath yn bwerus ar gyfer unrhyw adroddiad ar effaith, yn ogystal ag adnoddau cyllidebol.*

**Gwerthfawrogi eich cynrychiolwyr a'u sgiliau**
Mae gwerthfawrogi eich gwirfoddolwyr yn rhan bwysig o reoli gwirfoddolwyr yn dda. Allwch chi wneud ymdrech benodol i ddangos i gynrychiolwyr eich bod chi wedi gwerthfawrogi eu hamser a'u cyfraniad? Gallai hyn fod ar sawl ffurf – digwyddiad, cerdyn meddylgar, neu daleb.

Mae rhai UM a sefydliadau'n talu eu cynrychiolwyr am eu hamser – mae hyn yn rhywbeth i'w ystyried, yn enwedig wrth feddwl am ddemograffeg gwirfoddolwyr. Yn achos rhai grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, mae cyllid yn rhwystr i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol, gan nad oes gan rai pobl yr adnoddau ariannol i roi o'u hamser am ddim.

Byddai'n ddefnyddiol cynorthwyo cynrychiolwyr sy'n dod i ddiwedd eu cyfnod yn y rôl i egluro eu swyddogaeth, yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni, a'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt. Efallai y gallech roi ychydig o frawddegau iddynt y gallant eu defnyddio i grynhoi hyn ar gyfer ceisiadau am swyddi yn y dyfodol neu ar gyfer astudio pellach. Maent wedi gwirfoddoli eu hamser i wneud y coleg yn well, a byddant bob amser yn gynrychiolwyr y coleg. Gall gwneud hyn eu helpu i ddod yn llysgenhadon rhagorol. A bydd eu positifrwydd hefyd yn helpu i recriwtio cynrychiolwyr y flwyddyn nesaf.

***Coleg y Cymoedd:*** *yn 2025 mae Coleg y Cymoedd yn cyflwyno ffordd newydd o gefnogi cynrychiolwyr (a swyddogion etholedig) yn eu camau nesaf. Bydd y Pennaeth yn ysgrifennu llythyr diolch i bob un ohonynt am eu mewnbwn i fywyd y coleg. Bydd y dysgwyr yn rhydd i ddefnyddio'r llythyr hwn i gefnogi eu hymdrechion yn y dyfodol, boed hynny'n astudiaeth bellach, gwaith neu hyfforddiant. Bydd geirda hefyd ar gael gan staff perthnasol.*

Cofiwch, er y bydd sefydlu'r system cynrychiolwyr dysgwyr yn cymryd amser ac adnoddau, gall ddod â manteision mawr i'r coleg, dysgwyr, a'r cynrychiolwyr dysgwyr unigol. Yn y pen draw, mae'n helpu i greu cymuned gref, gyfeillgar a chysylltiedig ar gyfer pob dysgwr. Mae'n broses, ac ni fydd yn cael ei chyflawni mewn un flwyddyn academaidd. Mae angen profi a dysgu, bod yn agored i syniadau newydd, a chanolbwyntio ar brofiad y dysgwr.

Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn eich helpu i gyflawni eich amcanion!